**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1403 240130
Ein cyf/Our ref JMEWL/00235/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

16 Chwefror 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Ionawr 2024, ynglŷn â *'Deiseb P-06-1403 Ailystyried toriadau i gyllid ôl-raddedig a chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)'*.

Fel y nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ei rhagair i *Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25*, nid yw ein setliad cyllid yn ddigonol i ymateb i'r pwysau aruthrol y mae Cymru yn ei wynebu. Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd o'r herwydd.

Prif nod polisi Llywodraeth Cymru wrth gefnogi myfyrwyr yw gwneud yn siŵr nad yw'r rhai a all elwa ar addysg uwch yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd costau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n ymgymryd â'u gradd gyntaf er mwyn sicrhau y manteisir yn eang ar addysg uwch. Mae'r cymorth ar gyfer astudio gradd gyntaf wedi'i ddiogelu yn y gyllideb. Cynyddwyd y cymorth cynhaliaeth 9.4% ym mlwyddyn academaidd 2023/24, bydd yn cynyddu 3.7% ym mlwyddyn academaidd 2024/25, ac mae wedi tyfu 39% ers 2018. Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi bod y cymorth hwn yn parhau i fod ar gael i nifer fawr o fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster ôl-raddedig, gan gynnwys y rhai ar gyrsiau hyfforddi athrawon a chyrsiau sy'n gysylltiedig â rhai proffesiynau eraill.

Mae'r cymorth statudol ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig ar gyfer gradd Meistr bob amser wedi bod yn fwy hael na'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr o Loegr ers i argymhellion adolygiad Diamond gael eu rhoi ar waith ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Er na fydd grantiau ar gael bellach i fyfyrwyr newydd, yn amodol ar wneud rheoliadau, bydd benthyciadau yn disodli'r grantiau hynny, gan sicrhau bod swm sylweddol o gymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr sy'n ystyried buddsoddi ymhellach yn eu haddysg uwch yn ystod eu hastudiaethau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bosibl y bydd cael gwared ar y grantiau hyn yn lleihau'r cymhelliant i astudio. Rwy'n disgwyl i'r effaith honno fod yn fach. Mae cyfanswm y cymorth sydd ar gael yn llawer mwy na'r swm sydd ar gael i fyfyrwyr o Loegr. Mae trefniadau ad-dalu benthyciadau ôl-raddedig yn dal i fod yn ddibynnol ar incwm – mae benthycwyr yn ad-dalu 6% o'u hincwm uwchlaw'r trothwy o £21,000, ac ar ôl 30 mlynedd mae unrhyw ddyled yn cael ei dileu. Er gwaethaf y pwysau ariannol, mae hwn yn becyn cymorth hael a deniadol i'r rhai sy'n ystyried astudiaethau pellach.

Rwyf hefyd wedi penderfynu ailflaenoriaethu £3.2m ar gyfer bwrsariaethau cymhelliant ôl-raddedig a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddiogelu cyllid ysgolion. Roedd y bwrsariaethau hyn ar gael i rai myfyrwyr yn ogystal â'r cymorth statudol.

Cyfraniad at gostau astudio yw'r gefnogaeth ar gyfer astudiaethau doethurol ôl-raddedig a Meistr, fel y gwnaed yn glir yn y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â rheoliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r asesiadau i'w gweld yn:

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig (Cymru) 2018:
https://busnes.senedd.cymru/documents/s76085/ME SL5225 - Rheoliadau Addysg Benthyciadau at Radd Ddoethurol l-raddedig Cymru 2018 Saesneg .pdf.

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019:
https://busnes.senedd.cymru/documents/s87506/ME SL5411 - Rheoliadau Addysg Cymorth i Fyfyrwyr Graddau Meistr l-raddedig Cymru 2019 Saes.pdf.

Nid bwriad y benthyciad cyfraniad at gostau yw talu costau llawn ymgymryd ag astudiaethau doethurol ôl-raddedig, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i newid hyn. Y prif lwybr cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol yw'r Cynghorau Ymchwil sy'n gweithredu system gynllunio a chyllido soffistigedig a chadarn ledled y DU.

O ystyried y sefyllfa ariannol hynod anodd sydd ohoni, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ei bod wedi sicrhau cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod astudiaethau gradd gyntaf yn parhau i fod yn fforddiadwy a darparu cymorth hael cyn cychwyn i'r rhai sy'n bwriadu dilyn astudiaethau uwch.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language